OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3573

# Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007

**Dirymu a threfniadau trosiannol**

**31.**—(1) Dirymir rheoliadau 4, 5, 6, 7, 13, 14, 14A, 15, 16, 17, 18, 19, 20 a 21 o Reoliadau 1995 i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

(2) Dirymir Rheoliadau 1995 i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Ni fydd unrhyw berson yn cyflawni tramgwydd o dan reoliad 28(1) sy'n mynd yn groes i'r canlynol neu'n methu â chydymffurfio â'r canlynol—

(a) rheoliad 3(1)

(i) os yw'r weithred a fyddai fel arall yn ffurfio'r tramgwydd yn farchnata fformiwla fabanod sy'n mynd yn groes i neu'n methu â chydymffurfio â rheoliad 5,6, 8, 10, 11, 12 neu 14(1), (2) neu (3), a

(ii) os nad oes tramgwydd o dan reoliad 22(1) o Reoliadau 1995 sy'n mynd yn groes i neu'n methu â chydymffurfio â rheoliad (2)(a)(i) neu (ii) o'r Rheoliadau hynny;

(b) rheoliad 3(2)—

(i) os yw'r weithred a fyddai fel arall yn ffurio'r tramgwydd yn farchnata fformiwla ddilynol sy'n mynd yn groes i neu'n methu â chydymffurfio â rheoliad 5, 7, 9, 10, 11, 12, neu 14(1), (2) neu (3), a

(ii) os nad oes tramgwydd o dan reoliad 22(1) o Reoliadau 1995 sy'n mynd yn groes i neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau a geir yn rheoliad 3(a) neu (b) o'r Rheoliadau hynny; neu

(c) rheoliad 4, pan nad oes unrhyw dramgwydd o dan reoliad 22(1) o Reoliadau 1995 sy'n mynd yn groes i neu'n methu â chydymffurfio â rheoliad 2(b)(i) neu (ii) o'r Rheoliadau hynny.

(4) Diwygir Rheoliadau 1995 i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru yn unol â pharagraff (5).

(5) Ychwanegir y paragraff canlynol ar ddiwedd rheoliad 22 (tramgwyddau a gorfodi) o Reoliadau 1995—

"(4) No person commits an offence under paragraph (1) consisting of a contravention of or a failure to comply with—

(a) regulation 2(a)(i) or (ii), where there is no offence under regulation 3(1) of the of the 2007 Regulations consisting of a contravention of or a failure to comply with regulation 5, 6, 8, 10, 11, 12 or 14(1), (2) or (3) of those Regulations;

(b) regulation 2(b)(i) or (ii), where there is no offence under regulation 4 of the 2007 Regulations; or

(c) regulation 3(a) or (b), where there is no offence under regulation 3(2) of the 2007 Regulations consisting of a contravention of or a failure to comply with regulation 5, 7, 9, 10, 11, 12 or 14(1), (2) or (3) of those Regulations.

(5) In this regulation "the 2007 Regulations" means the Infant Formula and Follow-on Formula (Wales) Regulations 2007.".

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "Rheoliadau 1995" yw Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol 1995(**1**).

(**1**) O.S. 1995/77, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/451, O.S.2001/1690 (Cy.120) ac O.S. 2004/313 (Cy.31).